



## CABINET

### COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDY DRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), E. Stenner (Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Perfformiad ac Eiddo) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), V. Camp (Rheolwr Trawsnewid), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), S. Richards (Pennaeth Strategaeth a Chynllunio Addysg), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Harris (Chauffeur/Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor) a C. Evans-Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Y Cynghorydd C. Mann

Archwilio Cymru - Gareth P. Jones ac M. Jones.

#### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Wyllo](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

#### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio, a Fflyd) ac C. Harry (Prif Weithredwr),

#### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) fudd personol yn Eitem 10 ar yr Agenda – Cynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 Gwent gan fod ei wraig yn gweithio ar dîm Tracio ac Orlhain Torfaen, ond roedd modd iddo aros yn y cyfarfod.

### **3. CABINET – 9 MEHEFIN 2021**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021 fel cofnod cywir.

### **4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI**

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer 21 Gorffennaf 2021. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Trwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

### **5. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECT**

Roedd yr adroddiad yn rhannu manylion â'r Cabinet am ddyraniad o £10,000 o gyllid Trwydded i Arloesi tuag at ddarparu Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer llety ym Maenor Llancaiach Fawr, a dyraniad o £10,000 arall ar gyfer cynllun hyfforddi masnachol 12 mis.

Nododd y Cabinet iddo gyntuno yn y cyfarfod ar 30 Mai 2018 y byddai Bwrdd Prosiect Adfywio yn cael ei sefydlu gyda chynrychiolaeth wleidyddol drawsbleidiol o Gyngorwyr a swyddogion allweddol. Cefnogir y grŵp hwn gan Banel Asesu Adfywio, sy'n cynnwys swyddogion o ystod o feysydd gwasanaeth. Dyrannwyd swm cychwynnol o £300,000 i'r Bwrdd Prosiect.

Mae'r Panel Asesu Adfywio wedi cwrdd ar sawl achlysur i ystyried y rhestr flaenoriaethol o brosiectau cyfalaf a oedd wedi'u nodi gan y Bwrdd y gallent symud at y Cam Asesu. Ar ôl cael cymeradwyaeth ddilydol gan y Cabinet, ers mis Chwefror 2019 mae nifer o brosiectau wedi cael eu cefnogi drwy ddarparu cymorth ariannol (lle bo angen) o Gronfeydd Datblygu'r Bwrdd Prosiect Adfywio.

Yn ystod mis Ionawr 2019, penderfynodd y Cabinet ryddhau £1.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau blaenoriaeth y Bwrdd Adfywio. Ategwyd hyn hefyd ym mis Ebrill 2021, pan benderfynodd y Cabinet ddyrannu £1 miliwn yn ychwanegol i gyllideb y Gronfa Ddatblygu, gan ddod â chyfanswm y dyraniad i £2.5 miliwn. Hyd yma, mae £1,499,200 wedi'i ddyrannu tuag at gynlluniau adfywio cyfalaf blaenoriaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cabinet, ym mis Rhagfyr 2020, wedi penderfynu dyrannu £50,000 o gyllid sbarduno i'r Bwrdd Adfywio ar gyfer 2020/21 er mwyn datblygu cysyniadau a syniadau o dan y fenter Trwydded i Arloesi.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Cabinet nodi'r £10,000 o gyllid Trwydded i Arloesi ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llety ym Maenordy Llancaiach Fawr, a dyraniad o £10,000 ar gyfer cynllun Hyfforddiant Masnachol.

Nodwyd y byddai'r cais yn gadael Cronfa Trwydded i Arloesi weithredol o £9,311.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad, a dilynnodd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod, wrth nodi poblogrwydd Maenor Llancaiach Fawr fel safle priodasau, a'r cynnig i ddarparu llety ar y safle, i gael rhagor o wybodaeth ar ganlyniad y cais. Eglurodd y Swyddogion bod gwaith yn mynd rhagddo i ddod i gasgliad, a disgwylir y bydd adroddiad ar gael yn y chwe mis nesaf, a fydd yn cael ei ddarparu i'r Cabinet.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog, y dylid nodi bod £10,000 o Gyllid Trwydded i Arloesi wedi'i ddyrannu i baratoi'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llety yn Llancaiach Fawr, a bod £10,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu cynllun hyfforddiant masnachol, fel a gymeradwywyd gan y Bwrdd Prosiect Adfywio.

## **6. FFERM SOLAR CWM IFOR**

Amlinellodd yr adroddiad yr argymhellion a wnaed i'r Cabinet gan y Bwrdd Adfywio yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2021 i ddyrannu £434,000 o gyllid datblygu ar gyfer prosiect Fferm Solar Cwm Ifor. Roedd yn amlinellu'n fanwl y cynnydd a wnaed ar y cynnig hyd yma, ac yn nodi'r camau nesaf a'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu'r prosiect, a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen.

Nodwyd bod cynnig Fferm Solar Cwm Ifor yn brosiect sylweddol y mae arno angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn datblygu i'r cam lle mae achos busnes llawn i'w gymeradwyo. Bydd y buddsoddiad a geisir yn galluogi: cyflwyno cais cynllunio, gan gynnwys adroddiadau a gwaith ymgynghori ategol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; dogfennaeth gaffael ac opsiynau ar gyfer adeiladu; a modelu ariannol penodol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar waith adeiladu'r fferm solar ddechrau 2022.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am y gwaith sylweddol a gynhaliwyd hyd yma ar y cynnig, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am yr effaith ar breswylwyr ac eiddo. Pwysleisiodd y Swyddogion mai ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen i'r cam nesaf mae'r adroddiad, lle bydd modd penodi ymgynghorydd cynllunio a fydd yn edrych ar y tir a ddyrannwyd a'r gofynion, ac yn darparu rhagor o wybodaeth i breswylwyr ar faint a graddfa'r prosiect. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai prosesau ymgynghori sylweddol yn cael eu cynnal drwy gydol y prosiect.

Gofynnodd Aelod a fu gwaith ymgynghori ag Aelodau Ward Lleol ac a oedden nhw'n cefnogi'r prosiect. Eglurodd y Swyddogion bod gwaith Briffio'r Aelodau Ward Lleol wedi bod yn mynd rhagddo, ynghyd ag ymweliadau safle i sicrhau bod aelodau lleol yn hapus â'r cynnig. Hyd yma, mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, ac mae aelodau'r ward yn cefnogi'r cynnig, ond bydd ymarferion ymgynghori pellach yn cael eu cynnal pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn Adroddiad y Swyddog, cymeradwyo dyraniad cyllid o £434,000 er mwyn i'r Swyddogion symud prosiect Fferm Solar Cwm Ifor at y cam busnes terfynol, pan fydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ei ystyried.

## **7. ASESIAID O GYNALIADWYEDD ARIANNOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI.**

Cyflwynodd yr adroddiad i'r Cabinet adroddiad Archwilio Cymru ar ei asesiad diweddaraf ar gynaliadwyedd ariannol CBS Caerffili.

Nodwyd bod Archwilio Cymru wedi cynnal ei asesiad o gynaliadwyedd ariannol gan fod hyn yn parhau i fod yn risg wrth i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Cynhaliwyd prosiect tebyg yn 2019/20, cyn pandemig COVID-19. Casgliad cyffredinol adolygiad 2019/20 ar gyfer CBS Caerffili oedd: -

***Mae gan y Cyngor sefyllfa ariannol gref, gyda lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, lefel gymharol sefydlog o fenthyca, a thanwariant sylweddol yn ei chyllidebau yn y blynyddoedd diwethaf.***

Roedd dau gam i asesiad 2020/21 Archwilio Cymru o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Asesiad gwaelodlin o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol y Cyngor lleol oedd Cam 1. Roedd y cam hwn yn defnyddio sefyllfa diwedd blwyddyn 2019/20, y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020/21, a rhagamcanion ar gyfer chwarter 2 yn 2020/21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**. Canfu hwn fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector tua'r dyfodol yn her barhaus.

Cydnabuwyd bod y pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwys ar gyllid y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno yn gosod sefyllfa waelodlin lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol, a graddfa'r her a ddisgwylir yn y dyfodol.

Cynhyrchwyd yr adroddiad, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 Adroddiad y Swyddog, gan Archwilio Cymru ar ôl gorffen Cam 2 ei waith asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020/21. Cynhyrchir adroddiad ar gyfer pob un o'r 22 o'r prif gynghorau yng Nghymru.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a chroesawodd G. P. Jones ac M. Jones o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, a rannodd fanylion nifer fach o fân-ddiwygiadau i'r adroddiad asesiad o gynaliadwyedd ariannol, a nodwyd gan y Cabinet.

Eglurodd y Swyddogion bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref, gyda nifer o brosiectau allweddol a fframweithiau ar waith, a bod y cynigion i wella yn adroddiad Archwilio Cymru yn gyson â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr Adolygiad Corfforaethol Cynllunio Ariannol Cynaliadwy sy'n mynd rhagddo. Yn ogystal, rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet y byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu drwy gylch y Pwyllgor.

Diolchodd Swyddogion o Archwilio Cymru i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151, y Rheolwr Cyllid, y Prif Weithredwr a'r Cabinet am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad.

Ar ôl ystyried a thrafod, a gan nodi'r mân-ddiwygiadau i'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

–

- i) Nodi cynnwys Adroddiad Archwilio Cymru, gan gynnwys y mân-ddiwygiadau a amlygwyd gan Swyddogion Archwilio Cymru;
- ii) Nodi'r cynigion i wella gan Archwilio Cymru, sydd wedi'u derbyn gan Swyddogion ac a fydd yn cael eu datrys fel rhan o'r Adolygiad Corfforaethol

## 8. ALLDRO CYFALAF DROS DRO 2020/21

Rhannodd yr adroddiad wybodaeth â'r Cabinet mewn perthynas ag alldro cyfalaf dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Darparodd yr adroddiad fanylion gwariant cyfalaf gwirioneddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a llithriant y gwnaed cais iddo gael ei gario ymlaen i 2021/22.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y llithriant a nodwyd yn yr adroddiad, a gofynnodd a oedd COVID-19 yn ffactor a gyfrannodd at hyn. Eglurodd Swyddogion er bod y pandemig parhaus wedi achosi llithriant mewn nifer o feysydd fel y Cyfrif Refeniw Tai, Grantiau Trwsio Cartrefi a rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru, mae nifer o resymau eraill dros lithriant, fel oedi mewn rhaglenni gwaith sy'n mynd rhagddynt, oedi mewn trefniadau cytundebol a sicrhau cyllid allanol. Eglurodd y Swyddogion y bydd adolygiad o'r cyllidebau Cyfalaf a gwariant a ddyrannwyd yn mynd rhagddo yn y misoedd i ddod, gyda'r nod o allu darparu adroddiad i'r Cabinet yn yr hydref.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog, y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

## 9. ADOLYGIAD DARPARU LLYWODRAETHU DA: CBS CAERFFILI

Amlinellodd yr adroddiad ganfyddiadau'r Adolygiad Darparu Llywodraethu Da: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghyd â chynllun gweithredu arfaethedig y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r materion i'w hystyried a godwyd yn yr adolygiad.

Nodwyd yn hydref 2019, y cytunodd Archwilio Cymru a CBS Caerffili i gynnal adolygiad o drefniadau Llywodraethu'r Cyngor. Fframiwyd yr adolygiad fel ffordd o asesu a oedd trefniadau presennol y Cyngor wedi'u datblygu'n ddigonol i gefnogi taith drawsnewid uchelgeisiol Tîm Caerffili.

Roedd yr adolygiad i gynnwys hunanwerthusiad gan Banel Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn erbyn "Fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol" y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Yna, byddai arbenigydd rheoleiddio allanol a gomisiynwyd gan y Cyngor yn craffu ac yn herio'r hunanwerthusiad, cyn iddo fod yn destun adolygiad pellach gan Archwilio Cymru.

Nodwyd, gyda'r hunanwerthusiad yn dal heb ei gwblhau, y cytunodd y Cyngor ac Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2020 i oedi'r adolygiad o ganlyniad i'r angen brys i'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar ymateb i bandemig COVID-19.

Ym mis Mehefin y flwyddyn honno, cyhoeddodd Archwilio Cymru eu bwriad i ddefnyddio eu staff i gefnogi ac i herio gwaith cynllunio adfer mewn amser real. Penderfynwyd hyn er mwyn "rhoi sicrwydd bod yr adferiad yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r risgiau niferus, ond ei fod hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i sicrhau dyfodol gwahanol a chynaliadwy".

Nododd y Cyngor ei bod yn glir erbyn mis Awst, gyda'r ymateb i'r pandemig yn dangos dim arwydd o ddod i ben, bod y gwaith hunanwerthuso a gynhaliwyd yn flaenrol yn dod yn llai

adlewyrchol o'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi amgylchedd gweithredu newydd y Cyngor.

Serch hynny, parhaodd y Cyngor ac Archwilio Cymru i fod yn ymroddedig i ddefnyddio'r gwaith hunanwerthuso fel sail i ddisgrifio rhai gwelliannau posib i drefniadau'r Cyngor.

Nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad sawl mater i'r Cyngor eu hystyried sydd wedi'u nodi gan Archwilio Cymru, ac roedd Atodiad 3 yn cynnwys cynllun gweithredu arfaethedig y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r materion a godir.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad, a chroesawodd G.P. Jones o Archwilio Cymru a roddodd grynodedb o'r adolygiad a'r canfyddiadau i'r Cabinet, ynghyd â map ffordd a'r pum maes a nodwyd yn y ddogfen fel meysydd i'w gwella. Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog ac i Archwilio Cymru am eu mewnbwn gwerthfawr, rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Cyngor yn anelu i gyflawni'r amcanion.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- i) Nodi cynnwys Adolygiad Darparu Llywodraethu Da: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Archwilio Cymru;
- ii) Cytuno ar y cynllun gweithredu fel sydd wedi'i atodi yn Atodiad 4 adroddiad y Swyddog.

## **10. CYNLLUN ATAL AC YMATEB I COVID-19 GWENT.**

Hysbysodd yr adroddiad y Cabinet am fesurau amddiffyn a rheoli iechyd sydd ar waith ledled Gwent i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn ein cymunedau.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 Gwent.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ym mis Gorffennaf 2020 i ofyn iddyn nhw baratoi Cynlluniau Atal ac Ymateb i COVID-19 lleol ar y cyd. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd ar yr adeg honno wedi'u hadolygu, ac ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar 10 Mai 2021 yn gofyn iddynt ddiweddarau eu Cynlluniau. Atodwyd fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 Gwent yn Atodiad A adroddiad y Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad, a dilynodd trafodaeth.

Mynegodd y Cabinet eu diolch i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden a'i dîm am eu hymroddiad parhaus yn ystod y pandemig sy'n mynd rhagddo.

Gofynnodd Aelod, gan gyfeirio at lacio'r cyfyngiadau symud, a oes cynnydd wedi bod yn y pwysau ar waith Gorfodi COVID-19 a Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd. Eglurodd y Swyddogion fod hyn wedi bod yn heriol, a'u bod nhw wedi gorfod galw ar staff y tu allan i Dîm Iechyd yr Amgylchedd i gynorthwyo Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi'u penodi i gyflawni'r gwaith wrth ymateb i'r pandemig. Galwyd ar aelodau o staff yr adran Safonau Masnach a Thrwyddedu i ddarparu cymorth i orfodi rheoliadau COVID-19, ac roedd yn rhaid trosglwyddo Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd o'r adran Iechyd a Diogelwch a Thai, ynghyd â recriwtio Swyddog dros dro, er mwyn ateb y galw. Eglurodd y Swyddog bod y staffio ychwanegol yn cael ei ariannu o dan gronfa caledi COVID-19, ond mae Swyddogion yn lloïo Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid y tu hwnt i fis Medi 2021, gan y rhagwelir y bydd angen adnoddau ar

gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Serch hynny, nododd yr Aelodau bod y cyllid Orlhain Cysylltiadau wedi'i ymestyn tan fis Mawrth 2022.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u nodi yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r diweddariad i Gynllun Atal ac Ymateb i COVID-19 Gwent.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.23 am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 7 Gorffennaf 2021.

---

CADEIRYDD